Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

24 Tachwedd 2023

Yn bresennol:

Aelodau :

Ashok Ahir (Llywydd a Chadeirydd)	Andrew Evans (Is Lywydd)
Gronw Percy (Trysorydd)	Lydia Rumsey
Janet Wademan	Gwenllian Lansdown Davies
Hannah Lindsay	Anwen Jones
David Hay	Susan Davies
Lee Yale-Helms	Quentin Howard
Andrew Cusworth	John Allen

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol
Rhian Gibson	Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau
Emyr Evans	Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro

Hefyd yn bresennol:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethu a Chlerc y Bwrdd

Sylwedyddion:

Mary Ellis	Llywodraeth Cymru

1.1 Croeso gan y Cadeirydd, sylwadau cychwynnol ac ymddiheuriadau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, ac estynnwyd croeso arbennig i Andrew Cusworth a John Allen, oedd wedi cychwyn eu tymhorau fel Ymddiriedolwyr ar 1 Tachwedd 2023, ac a oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr. Croesawyd Mary Ellis hefyd, a oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn lle Manon Maragakis ac Ian Williams.

Oherwydd sensitifrwydd y materion ariannol i'w trafod yn y sesiwn hon, penderfynodd y Llywydd y dylai'r cyfarfod barhau fel sesiwn gaeedig.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Elaine Treharne.

1.2 Datgan buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Datganodd Andrew Evans ddiddordeb mewn unrhyw drafodaethau ar yr Oriel Gelf Gyfoes gan ei fod yn gweithio ar un o'r ceisiadau ar gyfer y safle angori.

1.3 Cofnodion y cyfarfod ar 29 Medi 2023 a thrafodaeth ar y materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 29 Medi 2023 fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd.

Strategaeth Codi Arian - Rhian Gibson a Richard Roberts wedi trafod y gost o wneud y gwaith a nodir yn y strategaeth, ac mae cost y cyfan wedi ei gynnwys yn y gyllideb, felly ni wneir cais am arian ychwanegol.

Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd - cytunwyd i adael hwn ar y rhestr weithredu, a bydd Rhian Gibson yn rhoi diweddariad yng nghyfarfod mis Ionawr.

Trafodwyd y materion canlynol yn y sesiwn gaeedig.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd

Cyflwynodd y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd ei adroddiad, a rhoddodd ddiweddariad ar yr hyn oedd wedi digwydd ers iddo baratoi ei adroddiad.

Adran 3 Materion Strategol

3.2 Ymgysylltu â Chynulleidfaoedd a diweddariad ar adroddiad Fourth Street

Darparodd Rhian Gibson diweddariad a gwaith ymgysylltu â chynulleidfaoedd sydd ar y gweill yn y Llyfrgell.

3. 4 Cynllun Parhad Busnes – diweddariad llafar

Mae'r Llyfrgell wedi ail ymweld â'i chynllun parhad busnes a phrosesau yn dilyn yr ymosodiad seiber ar seilwaith y Llyfrgell Brydeinig ac yn gweithredu gwersi i'w dysgu o'r digwyddiad yn y Llyfrgell Brydeinig .

3.5 Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae nifer o fylchau ar 3 pwyllgor sefydlog y Bwrdd a'r Panel Adeiladau. Bydd rhestr o'r bylchau'n cael ei ddosbarthu i'r Ymddiriedolwyr yn y cyfarfod nesaf.

Adran 5: Adroddiadau'r Pwyllgorau

Derbyniodd y Bwrdd yr adroddiadau canlynol gan y pwyllgorau i'w hystyried.

Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 17.10.23, cofnodion drafft Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd 07.11.23 a chofnodion drafft Pwyllgor Pherfformiad, Ansawdd a Llywodraethiant 14.11.23 – adroddiad llafar.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

Datganiad o Fuddiannau
Cytunwyd i ailddosbarthu ffurflen datgan buddiannau 2023 i'r holl Ymddiriedolwyr i sicrhau bod diddordebau pawb yn gyfoes cyn archwilio'r Cyfrifon Blynyddol.

Oriel Gelf Gyfoes – Dogfen Cydweithio
Cymeradwyodd yr Ymddiriedolwyr y fersiwn derfynol o'r ddogfen cydweithio.

Cysylltu â Staff y Llyfrgell
Oherwydd cynydd pwysau gwaith ar staff, a diffyg adnoddau, i baratoi at cyfarfodydd , a gwaith ymhellach gyn deillio o neges Llywodraeth ynghylch toriad i'r gyllideb, gofynnodd y Llywydd i'r Ymddiriedolwyr beidio â chysylltu â staff yn uniongyrchol, ond i sianelu unrhyw gwestiynau neu geisiadau am wybodaeth trwy'r Clerc .

Neilltuwyd y materion canlynol ar yr agenda i'w trafod yn breifat.

3.1 Argymhellion CIPFA – cynlluniau gweithredu

(i) Sefyllfa Ariannol a Lleihau'r Diffyg 2023 – 2025

(ii) Swyddogaeth Gyllid y Llyfrgell

3.3 Cynllun Pensiwn – diweddariad ar y sefyllfa bresennol

4.1.1 Cyfrifon Rheoli Medi 2023

4.1.2 Ymrwymiadau'r Cronfeydd Preifat

****DIWEDD****